Gaeaf 2019/2020

Bydd y Gymdeithas yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau yn 2020:

* Gorymdaith Yr Hôb (ger Wrecsam) ar ddydd Sul, Chwefror 23;
* Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, Awst 1 - 8;
* Gŵyl y Fflam yng Nghorwen ar benwythnos Medi 12/13;
* Dathliadau Dydd Glyndŵr yng Nghorwen ar ddydd Mercher, Medi 16;
* Gwibdaith flynyddol y Gymdeithas a'r CCB (manylion i'w cadarnhau).

Ceir manylion pellach am y rhain, a digwyddiadau tebyg, yn adran 'Digwyddiadau i Ddod' ar wefan y Gymdeithas ac ar ein tudalen Facebook.

* * * * * * *

Bu'r Gymdeithas yn cyfrannu at drafodaethau ynglŷn â'r cwricwlwm Hanes newydd i Gymru am rhai blynyddoedd. Cyhoeddir y fersiwn derfynol ar ddiwedd Ionawr 2020; gobeithiwn bydd hwn yn disgrifio'n fanwl yr hyn fydd ein disgyblion yn dysgu am ein hanes.

Bydd y Gymdeithas yn dal i hybu gwybodaeth am hanes Glyndŵr - ynghyd a hanesion o Oes y Tywysogion. Rydym hefyd yn ymddiddori mewn lleoliadau a chysylltiad â hanes Glyndŵr.

Yn 2010 cyhoeddodd CADW gynllun dehongli - ‘Owain Glyndŵr a'i Wrthryfel'. Rhestrwyd wyth safle: Hanmer; Sycharth; Glyndyfrdwy; Pilalau; Machynlleth; Pennal; Castell Aberystwyth, a Chastell Harlech.

Gobeithiwn gydweithio gyda CADW i hyrwyddo'r safleoedd hyn - ac eraill - fel lleoliadau o ddiddordeb hanesyddol. Os hoffech ymuno a ni yn y fenter, yna cysylltwch â ni.